Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613   Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

**Grwpiau cyswllt a swigod dosbarth** – mae'r trefniadau ar gyfer swigod dosbarth yn cael eu haddasu bellach. Yn ystod yr wythnos hon rydym yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymysgu gyda gweddill y flwyddyn addysgol yn ystod gweithgareddau penodol ac amser egwyl. Mi fyddwn yn adolygu'r trefniadau yn wythnosol.

**Hylendid** - bydd gweithdrefnau arferol yr ysgol yn parhau o ran cymryd tymheredd, hylendid dwylo, awyru da a systemau unffordd mewn llefydd prysur.

**Trefniadau gollwng a chasglu plant ger yr ysgol** – diolch am bob cydweithrediad gyda'r trefniadau yn y bore ac ar ddiwedd dydd, rydym yn derbyn adborth positif iawn am y trefniant yma.

**Clwb Brecwast** – cofiwch fod y clwb brecwast ar gael bob dydd rhwng 8.15 a 8.30 – mae angen e bostio'r ysgol i gadw lle. swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

**Aelodaeth yr Urdd eleni** – os ydych am i'ch plentyn fod yn aelod o'r Urdd eleni er mwyn manteisio ar weithgareddau'r Urdd, ewch i urdd.cymru/ymuno. Pris aelodaeth unigol eleni yw £10; neu £25 ar gyfer teulu (3 neu fwy o blant). Y pris yw £1 ar gyfer plant sy'n derbyn cefnogaeth prydau ysgol am ddim. Bydd aelodau yn derbyn bathodyn a cherdyn aelodaeth a mynediad i holl weithgareddau'r Urdd.

**Wythnos beicio i'r ysgol** – mae'r wythnos Medi 27ain – Hydref 1af yn wythnos beicio/ sgwtera i'r ysgol – gobeithio y bydd modd i chi gefnogi os oes modd i chwi wneud hynny'n ddiogel.

**Cerdded a seiclo'n saff** – gweler manylion yn yr atodiad am weithgareddau cerdded a seiclo saff gan **Trywydd Iach** (9.00 - 10.30 ar Fedi'r 19eg ar Goedlan Plascrug)

**Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith**.

**R C Williams, Pennaeth 13/09/2021**

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

***Contact groups and class bubbles** - the arrangements for class bubbles are now being modified. During this week we will be providing opportunities for pupils to mix with the rest of the educational year during specific activities and break times. We will review the arrangements on a weekly basis.*

***Hygiene** - normal school procedures for temperature, hand hygiene, good ventilation and one-way systems will continue in busy places.*

***Drop off and collection arrangements at school** – thank you for your co-operation with the morning and end-of-day arrangements, we have received very positive feedback regarding this arrangement.*

***Breakfast Club** – please remember that the breakfast club is available daily between 8.15 - 8.30 – you will need to email the school to reserve a place. swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk*

***Urdd Membership** – if you wish for your child to be a member of the Urdd this year to take advantage of the Urdd's activities, please visit urdd.cymru/join. Membership is £10 for individuals, and £25 for families (3 or more children). Membership is £1 for children who are eligible for free school meal support. Members will receive a badge and membership card and access to all Urdd activities.*

***Cycle to school week** - September 27th – October 1st is cycle to school week - hopefully you will be able to support if you can do so safely.*

***Safer Walking and Cycling** - see attached information from **Outdoor Health** regarding safe walking and cycling activities, (9.00 - 10.30 on September 19th at Plascrug Avenue)*

***If you have any concerns regarding your child's education then please contact me immediately**.*

***R C Williams, Headteacher 13/09/2021***